***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 607 (Cy.30)

# TAI, CYMRU

## Gorchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud - -* | *27 Chwefror2001* |
| *Yn dod i rym Dydd Gwyl Dewi* | *1af Mawrth 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pŵer a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 189(2) o Ddeddf Tai 1996(**1**) sydd bellach yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru(**2**); ar ôl ymgynghori ag unrhyw gymdeithasau sy'n cynrychioli'r awdurdodau perthnasol ac unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 189(3) :

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001 a daw i rym ar Ddydd Gwyl Dewi, Mawrth 1af 2001.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

### Personau y mae arnynt angen blaenoriaethol i gael llety

**2.** Mae ar y disgrifiadau o berson a bennir yn erthyglau 3 i 7 angen blaenoriaethol i gael llety o dan adran 189 o Ddeddf Tai 1996.

### Person sy'n ymadael â gofal neu berson sydd mewn perygl neilltuol o ecsbloetio rhywiol neu ariannol, ac sy'n 18 oed neu drosodd ond o dan 21 oed

**3.**—(1) Person Sydd

(a) yn 18 oed neu'n hyn ond o dan 21 oed; a

(b) a oedd ar unrhyw adeg pan oedd yn dal yn blentyn, ond nad yw bellach, yn derbyn gofal, yn cael ei letya neu'n cael ei faethu; neu

(c) sydd mewn perygl neilltuol o ecsbloetio rhywiol neu ariannol.

(2) Ym mharagraff (1)(b) uchod, ystyr "yn derbyn gofal, yn cael ei letya neu'n cael ei faethu" yw:

(**1**) 1996 p.52

(**2**) Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), trosglwyddwyd y swyddogaethau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(a) yn derbyn gofal gan awdurdod lleol;

(b) yn cael ei letya gan gorff gwirfoddol neu ar ei ran;

(c) yn cael ei letya mewn cartref preifat i blant;

(ch) yn cael ei letya am gyfnod di-dor o dri mis o leiaf—

(i) gan unrhyw awdurdod iechyd, awdurdod iechyd arbennig neu awdurdod addysg lleol, neu

(ii) mewn unrhyw gartref gofal preswyl, cartref nyrsio neu gartref nyrsio meddwl neu mewn unrhyw lety a ddarperir gan un o Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol; neu

(d) yn cael ei faethu'n breifat.

**Person 16 neu 17 oed**

**4.** Person sy'n 16 neu'n 17 oed.

**Person sy'n ffoi rhag trais yn y cartref neu rhag bygythiad trais yn y cartref**

**5.** Person heb blant dibynnol sydd wedi bod yn destun trais yn y cartref neu sydd mewn perygl trais o'r fath, neu a fydd mewn perygl trais yn y cartref os bydd ef neu hi'n dychwelyd yno.

**Person sydd heb lety ar ôl ymadael â'r lluoedd arfog**

**6.**—(1) Person sydd yn y gorffennol wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog rheolaidd y Goron sydd wedi bod yn ddigartref ers ymadael â'r lluoedd hynny.

(2) Ym mharagraff (1) uchod, mae i'r ymadrodd "lluoedd arfog rheolaidd y Goron" yr ystyr a roddir i "regular armed forces of the Crown" yn adran 199(4) o Ddeddf Tai 1996.

**Cyn-garcharor sydd heb lety ar ôl cael ei ryddhau o'r ddalfa**

**7.**—(1) Cyn-garcharor sydd wedi bod yn ddigartref ers ymadael â'r ddalfa ac sydd â chysylltiad lleol gydag ardal yr awdurdod tai lleol.

(2) Ystyr "carcharor" yw unrhyw berson sydd am y tro yn cael ei gadw yn y ddalfa yn gyfreithlon o ganlyniad i ofyniad a osodwyd gan lys iddo ef gael ei gadw neu iddi hi gael ei chadw.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*D. Elis Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

27 Chwefror 2001

(**3**) 1998 p.38

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

O dan Ran VII o Ddeddf Tai 1996 ("Deddf 1996"), mae ar yr awdurdodau tai lleol ddyletswydd i ddarparu llety ar gyfer y rhai sy'n ddigartref, yn gymwys i gael cymorth, ac arnynt angen blaenoriaethol.

Mae adran 189 o Ddeddf 1996 yn nodi disgrifiadau o bersonau y mae arnynt angen blaenoriaethol ac mae hefyd yn rhoi pŵ er i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bennu rhagor o ddisgrifiadau.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu rhagor o ddisgrifiadau o bersonau y mae arnynt angen blaenoriaethol:

— person sy'n ymadael â gofal neu berson sydd mewn perygl neilltuol o ecsbloetio rhywiol neu ariannol, ac sy'n 18 oed neu drosodd ond o dan 21 oed (erthygl 3)

— person 16 neu 17 oed (erthygl 4)

— person sy'n ffoi rhag trais yn y cartref neu rhag bygythiad trais yn y cartref (erthygl 5)

— person sydd heb lety ar ôl ymadael â'r lluoedd arfog (erthygl 6)

— cyn-garcharor sydd heb lety ar ôl cael ei ryddhau o'r ddalfa (erthygl 7).